Mae'r mesur cynnydd yn dangos pa mor dda y mae dysgwr unigol wedi perfformio o'i gymharu â **phob dysgwr arall a wnaeth sefyll yr un prawf o fewn y grŵp blwyddyn o'r cwricwlwm cenedlaethol**. Mae'r mesur cynnydd yn cael ei gyflwyno fel cyfres amser er mwyn medru tracio llwyddiant disgybl unigol yn y profion dros amser.

Yn gyffredinol, bydd pob prawf yn dangos dosbarthiad tebyg o sgoriau safonedig o fewn yr ystodau a bennwyd (gweler y Nodiadau). Fodd bynnag, yn sgil amrywiaeth y marciau sydd ar gael a natur y profion, mae'n bosibl na fydd y canlyniadau'n dangos dosbarthiad normal. Dylid defnyddio'r data i gymharu perfformiad cymharol awdurdodau lleol ar draws blynyddoedd yn hytrach nag asesu perfformiad cyffredinol yn erbyn un dangosydd penodol.

Profion Rhifedd Cenedlaethol - Gweithdrefnol

- Sir Fynwy oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion a enillodd fesur cynnydd 'uwch na'r cyfartaledd' yn 2015.
- Ceredigion oedd â'r ganran isaf o ddisgyblion a enillodd fesur cynnydd 'is na'r cyfartaledd' yn 2015.
- Blaenau Gwent oedd â'r ganran isaf o ddisgyblion a enillodd fesur cynnydd 'uwch na'r cyfartaledd' ym mhob blwyddyn rhwng 2013 a 2015. Y sir honno hefyd oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion a enillodd fesur cynnydd 'is na'r cyfartaledd' ym mhob blwyddyn.
- Bro Morgannwg oedd â'r mesur cynnydd cymedr uchaf pan gyfrifwyd grŵp 'Pob blwyddyn' yn 2015. Ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y mesur cynnydd cymedr isaf ar gyfer grŵp 'Pob blwyddyn' ac o fewn pob grŵp blwyddyn unigol ac eithrio blwyddyn 9, lle gwelwyd y mesur cynnydd cymedr isaf yn Rhondda Cynon Taf.

Prawf Cenedlaethol Rhifedd - Rhesymu

- Gwynedd oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion yn ennill mesur cynnydd 'uwch na'r cyfartaledd' yn 2015.
- Ceredigion oedd â'r ganran isaf o ddisgyblion a enillodd fesur cynnydd 'is na'r cyfartaledd' yn 2014 a 2015.
- Blaenau Gwent oedd â'r ganran isaf o ddisgyblion yn ennill mesur cynnydd 'uwch na'r cyfartaledd' yn 2014 a 2015. Y sir honno hefyd oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion a enillodd fesur cynnydd 'is na'r cyfartaledd' ym mhob blwyddyn.
- Gwynedd oedd â'r mesur cynnydd cymedr uchaf ar gyfer grŵp 'Pob blwyddyn' yn 2015, er nad oedd y mesur cynnydd cymedr uchaf yn unrhyw grŵp blwyddyn unigol yn y sir honno. Ar gyfer blynyddoedd ysgolion uwchradd, gwelwyd y mesur cynnydd cymedr uchaf ar gyfer blynyddoedd 7 i 9 ym Mro Morgannwg a'r ail yn Sir Fynwy.
- Ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y mesur cynnydd cymedr isaf yn y grŵp 'Pob blwyddyn' ac ym mhob grŵp blwyddyn unigol.

Tabl 9: Prawf Rhifedd Cenedlaethol - Gweithdrefnol: mesur cynnydd, yn ôl ALI, 2013 i 2015 (a)

Local Authority	2013					2014					2015				
	Yn absennol yn ystod y					Yn absennol yn ystod y					Yn absennol yn ystod y				
	O fewn yr					O fewn yr					O fewn yr				
	Wedi'u datgymhwuso	cyfnod prawf	Is na'r cyfartaledd	ystod cyfartaledd	Uwch na'r cyfartaledd	Wedi'u datgymhwuso	cyfnod prawf	Is na'r cyfartaledd	ystod cyfartaledd	Uwch na'r cyfartaledd	Wedi'u datgymhwuso	cyfnod prawf	Is na'r cyfartaledd	ystod cyfartaledd	Uwch na'r cyfartaledd
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Ynys Môn	1.6	1.2	10.2	60.4	26.6	1.3	2.5	12.5	62.8	20.9	1.4	1.2	10.7	69.8	16.9
Gwynedd	1.2	1.2	12.5	63.2	21.9	1.4	1.1	13.3	62.8	21.4	1.2	1.2	10.5	68.5	18.6
Conwy	1.2	1.4	19.6	62.4	15.4	1.4	1.3	18.9	62.5	15.9	0.5	0.9	15.6	68.5	14.5
Sir Ddinbych	2.6	1.0	14.8	65.8	15.8	2.1	2.4	17.3	63.3	15.0	1.7	1.8	14.0	69.3	13.2
Sir y Fflint	1.0	1.9	17.8	62.9	16.5	1.0	1.7	18.2	63.5	15.7	1.0	1.5	13.2	69.1	15.3
Wrecsam	2.6	2.3	17.4	61.1	16.6	2.1	2.0	18.8	60.9	16.2	1.9	1.6	13.9	68.3	14.3
Powys	1.3	1.0	14.3	64.7	18.6	2.0	0.9	13.4	64.7	19.0	1.9	0.5	10.7	70.2	16.7
Ceredigion	1.2	0.7	15.0	63.1	20.1	1.9	1.3	11.8	61.2	23.7	1.5	0.5	9.2	69.3	19.5
Sir Benfro	1.6	1.1	16.0	64.0	17.2	1.4	1.6	15.1	62.6	19.3	2.0	1.1	12.3	69.3	15.3
Sir Gaerfyrddin	1.6	1.5	15.0	62.6	19.3	1.5	1.4	13.3	63.6	20.2	1.4	0.9	10.1	68.1	19.5
Abertawe	1.9	1.5	16.5	60.7	19.5	1.9	1.7	14.5	60.9	20.9	2.1	1.1	10.1	65.8	20.9
Castell-nedd Port Tal	1.6	1.5	18.4	62.4	16.0	1.7	1.9	16.9	63.1	16.4	1.6	1.4	13.2	68.3	15.6
Penybont ar Ogwr	2.1	1.6	17.1	62.6	16.6	2.2	1.4	16.5	62.2	17.6	1.8	0.9	12.4	67.1	17.7
Bro Morgannwg	1.1	1.2	11.4	61.8	24.5	1.3	1.3	13.2	61.1	23.1	1.1	1.1	9.2	66.1	22.5
Rhondda Cynon Taf	1.8	1.7	18.8	62.5	15.2	1.9	1.7	21.9	61.8	12.7	1.9	1.3	15.4	68.0	13.4
Merthyr Tudful	1.9	1.1	23.4	60.7	12.9	1.9	1.2	20.3	62.7	14.0	2.3	1.2	13.7	69.2	13.7
Caerffili	0.8	1.9	19.9	61.5	15.9	1.0	1.3	21.5	62.3	13.9	0.8	1.1	15.9	68.0	14.3
Blaenau Gwent	0.9	2.1	24.6	61.3	11.1	1.5	1.5	26.6	59.6	10.7	2.2	1.7	19.3	67.6	9.2
Torfaen	0.8	2.0	20.5	62.3	14.4	1.0	2.6	20.5	62.7	13.1	1.2	1.4	16.5	67.9	12.9
Sir Fynwy	1.0	1.0	14.0	62.4	21.6	1.2	0.8	13.7	61.8	22.6	1.8	0.8	10.0	64.8	22.6
Casnewydd	1.6	1.7	17.7	60.2	18.9	1.8	2.6	20.5	60.7	14.5	1.7	1.5	16.6	66.9	13.4
Caerdydd	0.9	1.5	18.3	59.9	19.4	1.6	1.5	18.2	60.2	18.6	1.6	1.3	13.7	64.9	18.6
Cymru	1.5	1.5	17.1	61.9	17.9	1.7	1.6	17.3	61.9	17.4	1.6	1.2	13.1	67.5	16.5

(a) Yn gyffredinol, bydd pob prawf yn dangos dosbarthiad tebyg o sgoriau safonedig o fewn yr ystodau a bennwyd. Fodd bynnag, yn sgil amrywiaeth y marciau sydd ar gael a natur y profion, mae'n bosibl na fydd y canlyniadau'n dangos dosbarthiad normal. Dylid defnyddio'r data i gymharu perfformiad cymharol awdurdodau lleol ar draws blynnyddoedd yn hytrach nag asesu perfformiad cyffredinol yn erbyn un dangosydd penodol.

Tabl 10: Prawf Cenedlaethol Rhifedd - Rhesymu: mesur cynnydd, yn ôl ALI, 2014 i 2015 (a)

Local Authority	2014					2015				
	Yn absennol yn ystod y					Yn absennol yn ystod y				
	Wedi'u datgymhwuso		O fewn yr ystod			Wedi'u datgymhwuso		O fewn yr ystod		
	cyfnod		Uwch na'r			cyfnod		Uwch na'r		
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Ynys Môn	1.3	3.1	12.2	62.1	21.4	1.4	1.7	9.4	67.1	20.4
Gwynedd	1.5	1.9	12.1	64.0	20.5	1.2	1.8	8.1	65.5	23.4
Conwy	1.5	2.1	15.8	64.8	15.9	0.5	1.5	12.6	69.8	15.7
Sir Ddinbych	2.0	3.2	15.2	64.0	15.6	1.7	2.5	11.1	68.6	16.2
Sir y Fflint	1.0	2.8	15.0	65.0	16.1	1.0	2.1	10.3	69.7	16.9
Wrecsam	2.1	2.5	16.4	63.0	16.1	1.9	2.2	11.5	68.5	15.8
Powys	2.1	1.4	12.3	63.4	20.9	1.9	0.8	7.9	68.1	21.3
Ceredigion	1.9	1.7	10.5	61.9	23.9	1.4	1.1	7.5	67.1	22.8
Sir Benfro	1.4	2.9	14.2	63.2	18.3	2.1	1.8	9.7	68.4	18.1
Sir Gaerfyrddin	1.6	2.1	13.3	63.8	19.3	1.4	1.2	8.9	68.0	20.6
Abertawe	1.9	2.2	14.1	63.0	18.7	2.1	1.3	8.6	67.2	20.9
Castell-nedd Port Talbot	1.8	2.3	19.0	63.8	13.2	1.6	2.0	12.3	70.2	13.9
Penybont ar Ogwr	2.2	2.3	16.8	62.3	16.3	1.9	1.5	11.2	68.1	17.3
Bro Morgannwg	1.3	1.9	12.6	64.3	20.0	1.2	1.7	8.2	66.4	22.5
Rhondda Cynon Taf	1.9	2.5	21.5	62.4	11.7	1.9	1.9	13.0	69.9	13.2
Merthyr Tudful	1.9	2.9	21.9	61.9	11.4	2.3	1.9	13.7	70.8	11.4
Caerffili	1.0	1.9	21.7	63.0	12.3	0.8	1.4	14.9	69.9	13.0
Blaenau Gwent	1.5	2.3	26.1	62.1	7.9	2.2	1.9	19.2	68.0	8.8
Torfaen	1.1	3.2	20.2	63.1	12.4	1.2	2.1	14.6	69.3	12.9
Sir Fynwy	1.1	0.8	15.0	64.6	18.5	1.8	1.0	9.9	67.4	19.9
Casnewydd	1.8	3.0	20.6	61.8	12.8	1.6	2.2	15.5	68.0	12.6
Caerdydd	1.6	2.3	18.3	61.2	16.7	1.6	1.9	12.8	66.7	17.0
Cymru	1.7	2.3	16.8	62.9	16.2	1.6	1.7	11.5	68.2	17.0

(a) Yn gyffredinol, bydd pob prawf yn dangos dosbarthiad tebyg o sgoriau safonedig o fewn yr ystodau a bennwyd. Fodd bynnag, yn sgil amrywiaeth y marciau sydd ar gael a natur y profion, mae'n bosibl na fydd y canlyniadau'n dangos dosbarthiad normal. Dylid defnyddio'r data i gymharu perfformiad cymharol awdurdodau lleol ar draws blynnyddoedd yn hytrach nag asesu perfformiad cyffredinol yn erbyn un dangosydd penodol.

Tabl 11: Prawf Rhifedd Cenedlaethol - Gweithdrefnol: mesur cynnydd cymedr, yn ôl ALI a grŵp blwyddyn, 2015 (a)

Aw durdod Lleol	Mesur cynnydd cymedrig								Pob blwyddyn
	BCC 2	BCC 3	BCC 4	BCC 5	BCC 6	BCC 7	BCC 8	BCC 9	
Ynys Môn	1,005.7	1,001.4	1,002.8	1,003.2	1,005.3	1,001.2	1,001.5	1,002.1	1,002.9
Gwynedd	1,006.1	1,003.3	1,003.8	1,003.3	1,004.2	1,000.9	1,001.9	1,004.2	1,003.5
Conwy	1,000.9	1,000.0	998.0	998.4	998.0	1,000.6	1,000.4	1,000.0	999.5
Sir Ddinbych	1,003.4	999.5	997.9	999.5	998.7	999.6	998.3	998.8	999.5
Sir y Fflint	1,001.3	1,000.5	1,000.4	999.0	999.3	1,000.9	1,002.4	1,002.4	1,000.7
Wrecsam	1,000.9	1,000.6	999.9	998.6	999.7	999.7	999.7	1,000.0	999.9
Powys	1,002.2	1,002.7	1,002.9	1,002.7	1,002.2	1,001.8	1,002.6	1,002.1	1,002.4
Ceredigion	1,006.1	1,003.9	1,003.5	1,006.7	1,004.1	1,002.1	1,003.2	1,005.1	1,004.3
Sir Benfro	1,001.4	1,001.0	1,001.9	1,001.5	1,001.6	1,000.0	1,000.0	999.7	1,001.0
Sir Gaerfyrddin	1,004.9	1,004.2	1,005.1	1,005.0	1,003.6	1,002.7	1,002.8	1,002.9	1,003.9
Abertawe	1,005.6	1,005.3	1,005.3	1,003.0	1,006.4	1,003.7	1,004.9	1,003.4	1,004.7
Castell-nedd Port Talbot	1,000.1	1,000.5	1,002.1	1,002.2	1,001.3	1,001.7	999.7	1,000.6	1,001.0
Penybont ar Ogwr	1,003.2	1,002.3	1,002.2	1,002.3	1,001.9	1,002.7	1,001.6	1,000.8	1,002.1
Bro Morgannwg	1,003.8	1,005.3	1,004.2	1,004.4	1,005.3	1,008.2	1,007.9	1,006.2	1,005.6
Rhondda Cynon Taf	999.5	999.9	1,001.0	1,000.1	999.4	998.1	998.4	997.4	999.2
Merthyr Tudful	999.7	1,000.5	1,001.1	1,000.2	1,002.4	997.2	997.7	998.6	999.8
Caerffili	999.1	999.1	998.5	998.8	997.8	1,000.6	999.2	999.5	999.1
Blaenau Gwent	992.9	994.6	995.3	996.1	994.5	996.8	997.1	997.8	995.5
Torfaen	999.4	1,000.8	997.2	997.3	997.1	1,000.1	997.6	998.5	998.5
Sir Fynwy	1,002.3	1,003.9	1,003.5	1,004.1	1,004.7	1,006.9	1,007.9	1,007.9	1,005.0
Casnewydd	996.2	998.4	997.0	997.6	997.0	1,001.6	1,000.9	1,001.5	998.7
Caerdydd	1,000.7	1,001.7	1,001.8	1,002.4	1,002.3	1,003.2	1,002.3	1,002.4	1,002.0

(a) Cyfrifwyd fel mesur cynnydd cymedr ar gyfer pob disgybl a safodd y prawf. Nid yw'n cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwysio neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

(b) Lluniwyd y mesur cynnydd ar gyfer pob grŵp blwyddyn i gynhyrchu ffigur cymedr o 1000, ond yn ymarferol nid yw'r ffigur cymedr byth yn 1000 ar ei ben. Gan fod sgoriau cynnydd yn gyfanrifau mae pob gwerth yn cael eu cyfrif i'r rhif agosaf, felly mae'n bosibl na fydd y cymedr (ar sail y gwerthoedd cyfanrif hyn) yn cyfateb i 1000.

Tabl 12: Prawf Cenedlaethol Rhifedd - Rhesymu: mesur cynnydd cymedr, yn ôl ALI a grŵp blwyddyn, 2015 (a)

Aw durdod Lleol	Mesur cynnydd cymedrig								
	BCC 2	BCC 3	BCC 4	BCC 5	BCC 6	BCC 7	BCC 8	BCC 9	Pob blwyddyn
Ynys Môn	1,006.7	1,004.1	1,005.4	1,005.3	1,008.6	1,003.2	1,003.6	1,000.1	1,004.7
Gwynedd	1,007.0	1,005.9	1,005.5	1,006.3	1,007.5	1,005.2	1,006.9	1,008.1	1,006.5
Conwy	1,000.9	999.8	1,001.2	1,000.1	1,000.0	1,002.8	1,002.8	1,003.8	1,001.4
Sir Ddinbych	1,006.6	1,000.3	1,000.8	1,002.8	1,002.2	1,001.9	1,000.7	1,001.8	1,002.2
Sir y Fflint	1,004.0	1,001.5	1,003.1	1,001.7	1,001.4	1,003.0	1,004.0	1,003.5	1,002.8
Wrecsam	1,003.0	1,001.6	1,001.5	1,000.0	1,000.7	1,001.5	1,002.6	1,002.3	1,001.6
Powys	1,006.1	1,004.6	1,007.4	1,006.7	1,006.1	1,003.1	1,005.4	1,005.5	1,005.6
Ceredigion	1,008.3	1,005.1	1,007.9	1,008.2	1,008.4	1,004.1	1,004.6	1,005.5	1,006.5
Sir Benfro	1,003.6	1,002.5	1,004.4	1,003.4	1,003.9	1,003.4	1,004.2	1,002.4	1,003.5
Sir Gaerfyrddin	1,006.2	1,004.3	1,006.1	1,005.1	1,004.5	1,002.9	1,003.9	1,004.0	1,004.6
Abertawe	1,005.5	1,006.1	1,007.3	1,004.6	1,006.0	1,003.6	1,005.6	1,002.9	1,005.3
Castell-nedd Port Talbot	999.9	999.9	1,001.4	1,001.3	999.5	1,000.7	1,001.3	1,000.8	1,000.6
Penybont ar Ogwr	1,002.9	1,002.8	1,001.9	1,003.3	1,001.5	1,003.8	1,003.3	1,001.0	1,002.5
Bro Morgannwg	1,004.6	1,004.4	1,004.1	1,005.3	1,005.0	1,008.3	1,010.2	1,008.9	1,006.2
Rhondda Cynon Taf	999.5	999.1	1,001.3	999.8	998.2	1,000.2	1,000.2	998.8	999.7
Merthyr Tudful	998.8	999.5	998.4	998.2	997.7	997.1	999.9	999.1	998.6
Caerffili	999.3	998.9	999.5	998.4	997.2	1,000.2	999.0	998.8	998.9
Blaenau Gwent	991.9	994.4	996.0	995.7	993.7	995.1	998.2	997.5	995.2
Torfaen	998.4	1,001.9	997.9	998.6	997.1	1,000.3	999.5	999.3	999.1
Sir Fynwy	1,002.5	1,001.9	1,004.3	1,001.9	1,003.8	1,005.8	1,007.6	1,008.2	1,004.3
Casnewydd	996.3	998.9	998.1	997.5	996.4	1,001.9	1,000.8	1,001.0	998.8
Caerdydd	1,000.2	1,000.6	1,001.4	1,001.1	1,001.1	1,003.6	1,004.0	1,003.2	1,001.8

(a) Cyfrifwyd fel mesur cynnydd cymedr ar gyfer pob disgybl a safodd y prawf. Nid yw'n cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwysio neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

(b) Lluniwyd y mesur cynnydd ar gyfer pob grŵp blwyddyn i gynhyrchu ffigur cymedr o 1000, ond yn ymarferol nid yw'r ffigur cymedr byth yn 1000 ar ei ben. Gan fod sgoriau cynnydd yn gyfanrifau mae pob gwerth yn cael eu cyfrif i'r rhif agosaf, felly mae'n bosibl na fydd y cymedr (ar sail y gwerthoedd cyfanrif hyn) yn cyfateb i 1000.

Nodiadau

1. Y Cyd-destun

1.1 Polisi/Gweithredol

Ym mis Mai 2013 cafodd y profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol eu gweithredu ar sail statudol ar gyfer pobl disgybl o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9. Yn y gorffennol, mae llawer o ysgolion wedi defnyddio profion darllen a rhifedd masnachol yn ogystal â phrofion gallu gwybyddol. Drwy gyflwyno profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol mae'n sicrhau arferion cyson. Mae'r profion yn ategu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'u nod yw dilyn cynnydd disgyblion o ran sgiliau darllen a rhifedd o Flwyddyn 2 (diwedd y Cyfnod Sylfaen) hyd at Flwyddyn 9 (diwedd Cyfnod Allweddol 3). Bwriad y profion yw rhoi syniad cliriach i athrawon o ddatblygiad dysgwr a sicrhau bod pob ysgol yn nodi anghenion eu disgyblion er mwyn datblygu eu gallu mewn darllen a rhifedd. Bydd hyn yn caniatáu iddynt nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac i ymyrryd yn gynt os yw disgyblion yn cael trafferthion. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gael ar wefan Dysgu Cymru yma:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy>

Cafodd y profion darllen eu datblygu ar gyfer Llywodraeth Cymru gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) a chafodd y profion rhifedd eu datblygu gan NFER, ar y cyd ag Acumina. Cafodd NFER ac Acumina gyngor gan baneli arbenigol, cynghorwyr ac ymarferwyr o Awdurdodau Lleol drwy gydol y broses o ddatblygu'r profion.

I gael rhagor o wybodaeth am y drefn o weinyddu'r profion, gweler "Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol - Llawlyfr Gweinyddu Profion 2015" sydd ar gael yma:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-2015-administration-handbook/?skip=1&lang=cy>

Mae Penaethiaid yn gyfrifol am adrodd ar ganlyniadau ar gyfer pob disgybl ar gofrestr yr ysgol fel y maent ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai; fe'i gelwir yn 'ddyddiad penodol ar y gofrestr'. Yn 2015, y dyddiad ar gyfer hwn oedd 12 Mai. Gallwch weld y trefniadau asesu statudol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2014/15 yma:

<http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/curriculumwales/?lang=cy>

1.2 Dogfennau Cysylltiedig

Ar 12 Awst 2015 cyhoeddwyd datganiad ystadegol yn ymwneud ag asesiadau athrawon ar gyfer y meysydd dysgu gorfodol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a'r pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3, dan y teitl "Deilliannau diwedd y cyfnod sylfaen ac asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3". Hefyd ar 12 Awst 2015 cyhoeddwyd datganiad arall yn ymwneud â phynciau nad ydynt yn rhai craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2, dan y teitl 'Asesiadau Athrawon o'r Pynciau Di-graidd, Cymru 2015'. Gellir gweld y ddau ddatganiad yma:

<http://llyw.cymru/statistics-and-research/?topic=Education+and+skills&lang=cy>

Mae Adran Addysg Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ystadegau am brofion Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol y mae disgyblion yn Lloegr wedi'u sefyll. Mae disgyblion yn Lloegr hefyd yn sefyll profion yng Nghyfnod Allweddol 1 i helpu gydag asesiadau terfynol athrawon. Yn ogystal â hynny, mae profion dewisol ar gael yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 yn Lloegr i helpu i olrhain cynnydd. Gallwch weld datganiadau ystadegol ar gyfer profion Cyfnod Allweddol 2 ac asesiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 1, 2 a 3 yma:

<http://www.education.gov.uk/researchandstatistics/statistics>

2. Ffynonellau Data

2.1 Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Cafodd y data ar gyfer Profion Darllen Cenedlaethol eu casglu drwy'r system Casglu Data Cenedlaethol (NDC) oedd yn bodoli eisoes. Casgliad o ddata electronig yw'r NDC o asesiadau athrawon ar ddiwedd

y Cyfnod Sylfaenol a Chyfnod Allweddol 2 a 3 a chafodd ei ehangu i gynnwys canlyniadau Profion Darllen Cenedlaethol am y tro cyntaf yn 2013. Mae ysgolion yn anfon data i Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru dan ofal eu Hawdurdod Lleol. Ar gyfer 2014, cafodd yr NDC ei ehangu i gynnwys casglu data'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (y rhannau gweithredol a rhesymu).

Ar gyfer 2015, casglwyd canlyniadau'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol fel rhan o gasgliad data ar wahân ar gyfer Profion Cenedlaethol Cymru.

Gallwch weld crynodeb o broses Profion Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2015 gan gynnwys amserlenni a threfniadau adrodd yma:

<http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolhome/schooldata/ims/datacollections/nationaldatacollection/?skip=1&lang=cy>

3. Diffiniadau

3.1 Cwmpas

Mae'n ofyniad statudol i bob disgybl o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9 sefyll y prawf darllen a'r prawf rhifedd. Mae'n ofynnol i ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf ym Mlynnyddoedd 2 a 3 sefyll y fersiwn Gymraeg o'r prawf darllen yn unig, er y gall ysgolion ddewis bod plant sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf ym Mlwyddyn 3 yn sefyll y fersiwn Saesneg o'r profion yn ogystal. Er cysondeb, mae canlyniadau unrhyw brawf Saesneg dewisol ar gyfer disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf ym Mlwyddyn 3 wedi cael eu tynnu oddi ar y gwaith dadansoddi yn y datganiad hwn.

O Flwyddyn 4 i Flwyddyn 9, rhaid i ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf gyflwyno canlyniadau ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r profion darllen.

Roedd ysgolion yn gallu dewis a fyddai'r disgyblion yn sefyll y profion rhifedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Roedd disgyblion a safodd y papur yn Gymraeg hefyd yn gallu cyfeirio at y fersiwn Saesneg o'r papur.

Roedd un papur ar gyfer grwpiau o ddwy flwyddyn yn y profion darllen ond roedd papur prawf rhifedd gwahanol ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Gallwch weld crynodeb o'r papurau prawf yn y tabl isod:

Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol	Papur Prawf Darllen Cenedlaethol Cymraeg	Papur Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg	Papur Prawf Rhifedd Cenedlaethol Cymraeg (Gweithdrefnol)	Papur Prawf Rhifedd Cenedlaethol Saesneg (Gweithdrefnol)	Papur Prawf Rhifedd Cenedlaethol Cymraeg (Rhesymu)	Papur Prawf Rhifedd Cenedlaethol Saesneg (Rhesymu)
2	CA3	EA3 ^(a)	2CG15	2EP15	2CRh15	2ER15
3	CA3	EA3 ^(b)	3CG15	3EP15	3CRH15	3ER15
4	CB3	EB3	4CG15	4EP15	4CRH15	4ER15
5	CB3	EB3	5CG15	5EP15	5CRH15	5ER15
6	CC3	EC3	6CG15	6EP15	6CRH15	6ER15
7	CC3	EC3	7CG15	7EP15	7CRH15	7ER15
8	CD3	ED3	8CG15	8EP15	8CRH15	8ER15
9	CD3	ED3	9CG15	9EP15	9CRH15	9ER15

(a) Nid yw'n ofynnol i ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf sefyll y prawf hwn

(b) Yn ddewisol ar gyfer disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf

Dylai disgyblion sefyll y papur(au) prawf ar gyfer grŵp Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol lle cânt eu dysgu. Mae'n bosibl y bydd rhai yn hŷn neu'n iau ac efallai y caiff rhai eu dysgu mewn dosbarth lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o wahanol oedran.

Mae canlyniadau'r profion darllen Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyflwyno ar wahân yn y datganiad hwn. Mae canlyniadau'r profion rhifedd wedi'u huno yn y datganiad hwn gan fod cynnwys y profion rhifedd Cymraeg a Saesneg yr un fath.

3.2 Safoni

Mae'n gyffredin defnyddio sgoriau safonedig fel y sgôr safonedig yn ôl oedran a'r mesur cynnydd ar gyfer y profion cenedlaethol. Bwriad y profion yw mesur gallu grwpiau mawr o unigolion. Y rheswm

am hyn yw nad yw gwybod beth yw nifer neu ganran y marciau cywir ar bapur prawf yn ddigon i roi darlun cyflawn o ba mor dda y mae dysgwr neu grŵp o ddysgwyr wedi perfformio yn eu prawf. Caiff canlyniadau profion pob ysgol eu dadansoddi i baratoi graddfeydd sgoriau safonedig er mwyn gallu cymharu unigolion a grwpiau mewn ffordd ystyrlon.

Yn gyffredinol, bydd pob prawf yn dangos dosbarthiad tebyg o sgoriau safonedig o fewn yr ystodau a nodir isod. Fodd bynnag, yn sgil amrywiaeth y marciau sydd ar gael, mae'n bosibl na fydd y canlyniadau'n dangos dosbarthiad normal.

3.3 Sgoriau Safonedig yn ôl Oedran

Cafodd sgoriau crai'r disgyblion o'r papurau prawf eu newid yn sgoriau safoni, ac fe'u cyflwynir yn y datganiad hwn. Mae'r sgôr safonedig yn ôl oedran yn dangos pa mor dda y mae dysgwr unigol wedi perfformio mewn prawf penodol o'i gymharu â **phlant eraill sydd yr un oed mewn blynyddoedd a misoedd** yng Nghymru.

Ar lefel Cymru, bwriad y safoni yw cyd-fynd â dosbarthiad amllder a elwir yn 'dosbarthiad arferol' ac mae gan y sgoriau gyfartaledd o 100, sy'n golygu ei bod yn hawdd gweld a yw disgybl wedi perfformio'n well neu'n waeth na'r cyfartaledd wrth gymharu â'r sampl safonedig. Bwriad arall y safoni yw rhoi gwyriad safonol (mesur o ledaeniad sgoriau) o 15. Mae'r model hwn wedi'i ddylunio er mwyn sicrhau bod gan tua 68 y cant o ddisgyblion sy'n sefyll y prawf sgôr safonedig o fewn 15 o bwyntiau i'r sgôr cyfartalog (rhwng 85 a 115).

Gallwch gael eglurhad pellach o sgoriau safonedig o'r canllawiau canlynol ar sgoriau safonedig yn ôl oedran, a gyhoeddwyd gan NFER:

<http://www.nfer.ac.uk/research/centre-for-assessment/age-standardisation.cfm>

Cafodd y Profion Darllen a Rhifedd eu safoni yn ôl y data poblogaeth "fyw". Felly mae'r data ar lefel Cymru ar gyfer yr holl brofion ar draws yr holl grwpiau blwyddyn yn dilyn y patrwm disgwyliedig yn fras gyda chymedr o 100 a gwyriad safonol o 15.

Nid oedd yn bosibl darparu sgoriau safonedig ar gyfer rhai disgyblion. Ni all cyraeddiadau ar eithafion y raddfa gael eu modelu'n gywir gan nad oedd digon o ddisgyblion yn y sampl safonedig wedi llwyddo i gael sgoriau oedd yn golygu y gallent gael eu cyfrifo i'r graddau angenrheidiol o ddibynadwyedd ystadegol.

3.3 Mesur Cynnydd

Mae'r mesur cynnydd yn dangos pa mor dda y mae dysgwr unigol wedi perfformio mewn prawf penodol o'i gymharu â **phob dysgwr arall a wnaeth sefyll yr un prawf o fewn y grŵp blwyddyn o'r cwricwlwm cenedlaethol**. Mae'r mesur cynnydd yn cael ei gyflwyno fel cyfres amser er mwyn medru tracio llwyddiant disgybl unigol yn y profion dros amser.

Lluniwyd y mesur cynnydd ar gyfer pob grŵp blwyddyn i gynhyrchu ffigur cymedr o 1000, ond yn ymarferol nid yw'r ffigur cymedr byth yn 1000 ar ei ben. Gan fod sgoriau cynnydd yn gyfanrifau mae pob gwerth yn cael eu cyfrif i'r rhif agosaf, felly mae'n bosibl na fydd y cymedr (ar sail y gwerthoedd cyfanrif hyn) yn cyfateb i 1000. Amrywia'r sgoriau o 950 i 1050. Er enghraifft, ar sail sgoriau o fewn un gwyriad safonol o sgôr o 1000, mae mesur cynnydd dysgwyr sy'n cael sgôr rhwng 980 a 1020 yn gydnaws â dysgwyr yn yr un grŵp blwyddyn (a safodd yr un prawf). Bydd gan tua 68 y cant o ddysgwyr sgôr o fewn yr ystod hwn. Mae gan ddysgwyr sy'n cael sgôr y tu allan i'r ystod hwn (hy o dan 980 neu'n uwch na 1020) fesur cynnydd sydd naill ai'n is neu'n uwch na mesur cynnydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn eu grŵp blwyddyn.

Mae'r mesur cynnydd wedi'i rannu i'r pum ystod canlynol:

Ystod	Disgrifiad
>=950 a <=959	Yn sylweddol is na chyfartaledd y grŵp
>=960 a <=979	Yn is na chyfartaledd y grŵp blwyddyn
>=980 a <=1020	Cyfartaledd y grŵp blwyddyn
>=1021 a <=1040	Yn uwch na chyfartaledd y grŵp blwyddyn
>=1041 a <=1050	Yn sylweddol uwch na chyfartaledd y grŵp

3.4 Datgymhwyso

Mae'r diffiniad o ddatgymhwyso a'r canllawiau cysylltiedig yn wahanol i hwnnw a ddarparwyd ar gyfer asesiadau athrawon. Felly, ni ellir cymharu cyfraddau datgymhwyso yn uniongyrchol a gallant amrywio. Mae'r canllawiau datgymhwyso ar gyfer y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gael ar wefan Dysgu Cymru yma:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-2015-administration-handbook/?skip=1&lang=cy>

4. Talgrynnu a symbolau

Mewn tablau lle mae ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r digit olaf agosaf, gall fod gwahaniaeth rhwng cyfanswm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm a nodir.

Mae'r symbolau canlynol wedi cael eu defnyddio drwy'r ddogfen:

- canrannau sy'n llai na 0.05 ond nid yn sero
- . amherthnasol
- .. ddim ar gael
- ~ ddim ar gael eto
- * data na ellir eu rhoi oherwydd cyfrinachedd

*Mae maint cohortau wedi cael eu disodli gan * lle ceir llai na 5 ond mwy na sero o ddisgyblion mewn categori.*

Diben hyn yw gwneud defnyddwyr yn ymwybodol o'r niferoedd bach iawn mewn rhai categorïau ac i ddangos y dylid bod yn ofalus wrth gymharu data cyrhaeddiad ar gyfer y categorïau hyn.

Mewn amgylchiadau lle gellir nodi ffigur a hepgorwyd o'r data sy'n weddill, mae'r ffigur lleiaf nesaf hefyd wedi cael ei hepgor.

5. Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum dimensiwn o ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb. Mae hefyd yn cynnwys materion penodol yn ymwneud ag ansawdd data 2014, ac mae'n disgrifio'r dull rheoli ansawdd a ddefnyddir yn y maes hwn.

Croesewir sylwadau am gwmpas y ddogfen hon a'r ffordd y caiff ei chyflwyno. Mae'r manylion cyswllt ar y dudalen flaen.

5.1 Perthnasedd

Pwy yw defnyddwyr allweddol y data hyn?

Caiff yr ystadegau hyn eu defnyddio yn Llywodraeth Cymru a'r tu allan. Dyma rai o'r defnyddwyr allweddol:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y Cynulliad Cenedlaethol ;
- Yr Adran Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru
- Meysydd eraill yn Llywodraeth Cymru
- Y gymuned ymchwil
- Awdurdodau Lleol ac ysgolion
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau.

Sut y bydd y data yn cael eu defnyddio?

Caiff yr ystadegau hyn eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd. Prif ddiben y data yw galluogi ymarferwyr i wneud gwaith dadansoddi a rhoi adroddiadau i rieni.

Dyma rai enghreifftiau pellach o sut cânt eu defnyddio:

- Cefndir ac ymchwil gyffredinol
- Ei gynnwys mewn adroddiadau a dogfennau briffio
- Cyngor i'r Gweinidogion
- Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

- Cymariaethau a meincnodau Awdurdodau Lleol ac ysgolion
- Llywio'r broses o wneud penderfyniadau o ran y polisi addysg yng Nghymru
- Rhoi gwybodaeth i ESTYN yn ystod arolygiadau ysgol
- Helpu gyda gwaith ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

5.2 Cywirdeb

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael eu dilysu cyn i'r tablau gael eu cyhoeddi. Caiff y data eu casglu ar ffurflen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy DEWi, sef system ddiogel ar gyfer trosglwyddo data ar-lein a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae amryw o gamau dilysu awtomataidd a gwiriadau yn rhan o'r broses er mwyn sicrhau data o ansawdd uchel.

Nid oedd dosraniad y sgoriau safonedig a gafwyd ar gyfer disgyblion oedd yn sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol ym mis Mai 2013 yn cyd-fynd â'r dosraniad a ddatblygwyd i gael sgôr gyfartalog o 100. Roedd y sgôr gyfartalog a gofnodwyd yn y profion "byw" yn uwch, gan ddangos bod y disgyblion a safodd y profion ym mis Mai 2013 wedi perfformio'n well na'r grŵp sampl pan gafodd y sgoriau safonedig eu datblygu. O ganlyniad, cafodd y Profion Darllen Cenedlaethol eu hailsafoni yn seiliedig ar y profion "byw". Mae tablau'r Profion Darllen Cenedlaethol wedi cael eu hadolygu yn natganiad Canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, 2013..

5.3 Amseroldeb a Phrydlondeb

Mae'n ofynnol i ysgolion weinyddu'r profion yn ystod cyfnod set. Ar gyfer 2015, roedd y cyfnod profi yn para rhwng 5 Mai a 12 Mai mewn ysgolion cynradd, a rhwng 29 Ebrill a 12 Mai mewn ysgolion uwchradd. Roedd DEWi, sef system ddiogel ar gyfer trosglwyddo data ar-lein a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gael i lanlwytho ffeiliau'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar 12 Mai 2015. Gofynnwyd i ysgolion gyflwyno data ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr yn yr ysgol ar 12 Mai. Roedd disgwyl i ysgolion lanlwytho eu data erbyn 5 Mehefin.

5.4 Hygyrchedd ac Eglurder

Caiff gwybodaeth am y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn ei rhyddhau cyn i'r datganiad gael ei gyhoeddi ar adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru.

5.5 Cymaroldeb

Ni chafodd data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol eu casglu ar gyfer ysgolion annibynnol. Cafodd Unedau Cyfeirio Disgyblion y dewis i gyflwyno data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol os oeddent yn dymuno.

Cafodd y data cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion oedd yn newydd i'r system addysg yng Nghymru neu yn Lloegr (NEWBES) o fewn y ddwy flynedd academaidd flaenorol eu tynnu oddi ar restr canlyniadau ysgolion ac Awdurdodau Lleol, ond cawsant eu cynnwys yn y canlyniadau cyffredinol ar gyfer Cymru. Ni chafodd dyddiad mynediad disgyblion NEWBES ei nodi yn ystod y broses o gasglu data Profion Rhifedd Cenedlaethol. Felly, mae data NEWBES a gasglwyd drwy'r system Casglu Data Cenedlaethol ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol wedi eu paru ar draws a'u defnyddio ar gyfer data y Prawf Rhifedd Cenedlaethol pan fo'n bosibl.

Mae'r sgoriau safonedig yn rhoi mesur o berfformiad cymharol yn unig. Felly, dylid defnyddio'r data yn y datganiad hwn i gymharu'r perfformiad cymharol o fewn y cohortau gwahanol yn hytrach nag i asesu perfformiad cyffredinol yn erbyn un dangosydd penodol. Dylid hefyd nodi na ddylid defnyddio canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael sgôr safonedig yn ôl oedran o fwy nag 85 neu fesur cynnydd cyfartalog neu'n uwch fel dangosydd o berfformiad "derbyniol".

